

cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Mae'n gyfnod o newidiadau yn yr eglwys. Braf oedd cael bod yn Oedfa Ordeinio a Sefydlu Trystan ac Emyr brynhawn Sadwrn, 8 Mehefin (gweler yr adroddiad llawn yn y rhifyn hwn). Mae gennym lawer i fod yn ddiolchgar i Dduw amdano wrth gael dau ŵr ifanc cystal i gymryd trosodd y weinidogaeth yn yr eglwys.

Roedd oedfa bore'r Sul canlynol hefyd yn nodedig wrth i ni gomisiynu Gwydion a Catrin i fynd yn wardeniaid i Fryn-y-groes. Dymunwn fendith Duw yn helaeth arnynt wrth iddynt symud i'r gogledd yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe fyddwn fel eglwys yn gweld eu heisiau'n fawr iawn –bu eu cyfraniad ill dau wedi yn gwbl nodedig.

Dyma fydd fy ngolygyddol olaf i *Cwmpawd*. Braint yn sicr oedd cael cyfrannu dros y blynyddoedd ac rwyf yn fawr fy nioch i'r pwyllgor a gydweithiodd mor hapus dros y

cyfnod i ofalu fod y deunydd yn cael ei gomisiynu, ei gasglu, ei osod a'i gynhyrchu'n rheolaidd. Mae'n galondid clywed o wahanol gorneli o Gymru fod y *Cwmpawd* yn cael ei ddarllen a'i werthfawrogi. Dymunwn bob bendith ar y rhai a fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb i'r dyfodol.

Diolch hefyd i'r eglwys am drefnu cinio yn y capel ar drydydd Sul Mehefin i nodi fy ymddeoliad o fod yn weinidog yn yr eglwys ddiwedd Awst. Ystyriaaf iddi fod yn fraint fawr i gael bod yn weinidog am yn agos i 30 mlynedd yn eich plith. Diolch i'r rhai a ymddiriedodd ynof yn y dechrau, ac i bawb am eu cefnogaeth ddiachwyn dros y blynyddoedd. Teimlaf fod profiad y Salmydd yn wir i minnau hefyd, 'syrthiodd y llinynnau i mi mewn mannau dymunol'(Salm 16:6a). Boed i Dduw fendithio gweinidogaeth Trystan ac Emyr yn helaeth iawn yn eich plith. Diolch o galon.

Moddion Duw


Trystan Hallam

‘Y Galatiaid dwl! Pwy sydd wedi eich rheibio chwi ...?’

Ai felly y byddech chi’n disgwyl i un o apostolion y Testament Newydd siarad? Neu beth am, ‘O na bai eich aflonyddwyr yn eu sbaddu eu hunain hefyd!’ Ydi hi’n peri syndod i ni mai geiriau’r Apostol Paul yw’r rhain? Wrth ysgrifennu at yr eglwys yn Galatia, mae Paul yn defnyddio iaith ysgytwol, ddi-flewyn ar dafod.

Ambell waith byddwch yn clywed person sydd wedi dechrau ei fusnes ei hun yn sôn am ei gwmni fel ‘fy mabi’. Roedd yr Eglwys yn ardal Galatia (sef Twrci ein dydd ni) yn ‘fabi’ i Paul. Cawn ddarllen hanes taith genhadol gyntaf Paul yn Actau 13–14, ac yn ystod y daith honno plannwyd eglwys, yn wir plannwyd eglwysi, yn ardal Galatia. Roedd cysylltiad tadol rhwng Paul a’r eglwys yn Galatia.

Ond daeth bygythiad. Wedi i Paul ymadael, dechreuodd eglwysi Galatia glywed neges wahanol o wefusau athrawon twyllodrus. Athrawon o gefndir Iddewig oedd y rhain a oedd am osod defodau Iddewig ar yr eglwysi yn Galatia – eglwysi lle nad oedd cefndir Iddewig yn bodoli. Roedd yr hyn a bregethodd yr Apostol Paul yn hollol wahanol i neges y gau athrawon hyn. ‘Drwy ffydd yn unig’: dyna oedd neges Efengyl – newyddion da – Paul. Er mwyn i Dduw ein derbyn, rhaid ymddiried, gosod ein ffydd ym mherson a gwaith yr Arglwydd Iesu Grist. Mae achubiaeth yn dibynnu’n llwyr ar gariad Duw tuag at y pechadur. Nid yw’r pechadur yn haeddu maddeuant ond mae Duw, o’i gariad, wedi trefnu ffordd i’w achub trwy waith yr Arglwydd Iesu. Credu yn yr Iesu yma, rhoi ffydd ynddo Ef a’i waith gorffenedig: dyna sail yr Efengyl a bregethwyd gan yr Apostol Paul.



Ond roedd y twyllwyr, y gau athrawon, yn ceisio pregethu rhyw ‘efengyl’ arall. Iawn, medden nhw, roedd Paul yn llygad ei le: roedd gwaith yr Arglwydd Iesu Grist *yn* bwysig – ond dyw e ddim yn ddigon i wneud person yn iawn gyda Duw. Oes, mae angen credu yn yr Arglwydd Iesu, ond mae’n rhaid ychwanegu ein gweithredoedd da ni at yr hyn mae’r Iesu wedi ei gyflawni. Ffydd yng Nghrist gyda ‘+’, gydag ychwanegiadau, oedd ‘efengyl’ y twyllwyr hyn. Ffydd yn Iesu Grist, ond bod rhaid hefyd i chi gael eich enwaedu a derbyn defodau Iddewig. Roedd ‘efengyl’ y gau athrawon yn bur wahanol i’r Efengyl yr oedd yr Apostol Paul wedi ei phregethu yn Galatia. Drwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu yn unig – dyna sut y ganwyd yr eglwys

yn Galatia. Ond nawr roedd ychwanegiadau’r gau athrawon yn bygwth difa’r eglwys.

Nid oes rhyfedd felly bod Paul yn defnyddio geiriau ymfflamychol yn ei lythyr at y Galatiaid. Roedd dyfodol yr eglwys, yr eglwys yr oedd e wedi ei phlannu, yn y fantol. Ond pam yr oedd yr eglwys yn Galatia ar dir peryglus? Oedd Paul yn gor-ymateb? Na, roedd yr Apostol Paul yn diogelu’r hyn sy’n angenrheidiol, sef sylfaen yr Efengyl. Beth yw cwestiwn pwysicaf bywyd? Nid: A fydd Caerdydd yn curo Abertawe yn yr uwchadran y tymor nesaf? Nid: Ydw i’n mynd i gael dyrchafiad? Ac nid hyd yn oed: Am ba hyd bydd fy ieched yn para? Na, y cwestiwn pwysicaf un inni gael ateb iddo yw: Sut ydw i’n dod yn iawn gyda Duw? Ac ateb y cwestiwn hwn a wna Paul yn ei lythyr at y Galatiaid.

Does dim byd y gallwn ni ei wneud – dim defodau, dim gweithredoedd da – i ennill ffafr Duw. Mae’r Arglwydd Iesu Grist wedi gwneud y cyfan drosom ni. Roedd ei fywyd e’n berffaith,

yn plesio Duw. 'Heb ei fai heb ei eni' medden ni, ond roedd bywyd yr Arglwydd Iesu'n wahanol: cafodd ei eni'n ddyn go iawn, ac eto heb unrhyw fai, heb unrhyw bechod. Ac wedyn aeth i'r groes, a barn Duw am bechod yn syrthio arno Fe. Os torrwn gyfraith Dduw, mae'n rhaid i Dduw gosbi'r torcyfraith hynny. Derbyniodd yr Arglwydd Iesu'r gosb yna'n wirfoddol yn ein lle ni ar y groes. 'Prynodd Crist ryddid i ni oddi wrth felltith y gyfraith pan ddaeth er ein mwyn, yn wrthrych melltith, oherwydd y mae'n ysgrifenedig: "Melltith ar bob un a grogir ar bren!". ' (Galatiaid 3:13) Ffydd yng Nghrist yw'r unig beth angenrheidiol er mwyn dod yn iawn gyda Duw, gan fod Crist wedi cyflawni yn ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, bob dim angenrheidiol drosom ni. Does dim lle i gelwydd y gau athrawon oedd yn mynnu bod rhaid *i ni* gyfrannu rhywbeth at ein hachubiaeth.

Fuoch chi erioed at y doctor gyda pheswch cas? Dychmygwch fod y doctor yn cynnig presgripsiwn i chi, ac wrth adael y feddygfa rydych yn taflu'r sgript i'r bin

gan ddweud, 'Mae'n well gen i gymryd mêl a lemwn a gwella fy hunan!' Ffŵl! Am ffolineb llwyr! Y cyfan sydd angen ei wneud yw cymryd y moddion; gwnaiff y moddion y gwaith i gyd. Mae'r llythyr at y Galatiaid yn feddygfa i ni. Mae'r Apostol Paul yn cyhoeddi, '... fe wyddom na chaiff neb ei gyfiawnhau ond trwy ffydd yn Iesu Grist, nid trwy gadw gofynion cyfraith'. Dim ond drwy ffydd yng Nghrist a'i waith gorffenedig y gallwn ddod yn iawn gyda Duw a chael ein derbyn ganddo. Mae Duw wedi paratoi'r presgripsiwn yn llawn: does gennym ni bechaduriaid *ddim* i'w ychwanegu ato. Dyna neges Paul yn ei lythyr at y Galatiaid. Y cwestiwn i ni yw: A ydym am gymryd moddion yr Efengyl? A ydym yn pwysu'n llwyr ar yr Arglwydd Iesu Grist? Neu, a ydi'r presgripsiwn yn y bin?

Oedfa Ordeinio

Steve Bowen

Ar ddydd Sadwrn, 8 Mehefin, cawsom fenthg adeilad Eglwys Highfields er mwyn cynnal Oedfa Ordeinio a Sefydlu'n gweinidogion newydd, Trystan Hallam ac Emyr James. Brafoedd gweld cynifer o gyfeillion yr Eglwys ac aelodau o deuluoedd y ddau yn bresennol, fel y cyfiawnhawyd y penderfyniad i gynnal yr oedfa mewn adeilad mwy na'n hadeilad ni yn Harriet St, a dyma ddiolch i aelodau Highfields am eu cymwynas â ni.



Arweiniwyd yr oedfa gan Gwydion (a oedd yn digon balch gadael y Saesneg wedi'r rhagarweiniad i'r rhai a oedd am ddefnyddio'r offer cyfieithu!), a dechreuwyd yr addoliad drwy ganoli'n sylw ar ein gobaith yng Nghrist ei Hun.

Wedi darlleniad gan Phil Elis o 2 Corinthiaid 4 a gweddi gan Dafydd James Morse, cafwyd peth o hanes yr eglwys a'r alwad oddi wrth Dewi George. Dechreuodd gyda hanes sefydlu'r eglwys yn 1979 dan ofal Noel Gibbard, ac yna Gwynn yn rhannu'r weinidogaeth gydag ef tan iddo gymryd yr ofalaeth wedyn, a diolchwyd iddo am ei waith dros y 30 mlynedd diwethaf. Soniwyd am Lewis Roderick yn dod atom fel gweithiwr dan hyfforddiant am ddwy flynedd (braf oedd gweld Lewis a Jenny yn y gynulleidfa), ac wedyn am ddyfodiad Trystan. Tua'r adeg yma roedd Gwynn eisoes wedi crybwyll ei fwriad i ymddeol

a Sefydlu



erbyn 2013 a bod angen felly i ni ddechrau meddwl ynglŷn a dyfodol y weinidogaeth.

Erbyn 2010 medrem lawenhau fel eglwys fod Emyr, a ddaeth i'r bywyd tra'n teithio'r byd, yn teimlo'r alwad i waith yr Efengyl. Diolch i rodd gan y ddiweddar Dr Ceinwen, bu modd cynnig cymorth ariannol i hyfforddi Emyr yng Ngholeg WEST, Bryntirion. Wrth weld Trystan ag Emyr yn cydweithio â Gwynn, daeth yn weddol amlwg fod Duw wedi darparu gweithwyr yn barod i'w ddilyn.

Fe'n hatgoffwyd er mai Emyr a Trystan a fydd yn gwneud y gwaith dyfrio, Duw ei Hun a fydd yn rhoi'r tyfiant, pwynt a arweiniodd at thema'r bregeth a oedd i ddilyn.

Daeth Rhodri ymlaen i arwain yr Ordeinio trwy ddarllen Cyffes Ffydd yr Eglwys, a gofyn i Emyr a Trystan nodi eu cytundeb ac i addunedu i'r aelodau ac i Dduw, ac fe'n hatgoffwyd ninnau o ddifrifoldeb a dwyster y gwaith oedd o'u blaenau. Braf oedd cael y plant yn ogystal â'r aelodau i sefyll i nodi ein cytundeb



wrth alw'r ddau i'r gwaith, i'w cefnogi ac i ymostwng iddynt. Wedi hyn, arweiniodd Noel y ddau i ganol y llwyfan a, dan afael yn dynn yn eu breichiau, gweddïodd yn dyner drostynt a'u cyflwyno i'r Arglwydd.

Esboniodd Gwynn wedyn nad ei ddewis ef oedd pregethu yn yr oedfa, ond bod Trystan ac Emyr wedi mynnu na ddymunent i neb arall ymgymryd â'r dasg. Rhannodd Gwynn y Gair o 1 Corinthiaid 3:9 '... gardd Duw ydych chi'. Dechreuodd drwy restru rhesymau pam mae pobl yn hoffi ymweld â gardd, a nodi sut y dylai aelodau'r Eglwys dangos nodweddion prydferth santeiddrwydd bywyd a gras, llonyddwch a thawelwch, a

ffrwythlondeb. Cyferbynnwyd y nodweddion hyn â hagrwrch pechod, a phroblemau a beichiau cymdeithas yn gyffredinol, a'r Eglwys felly'n lle y dylai pobl o'r tu allan ddymuno dianc iddo er cael lloches.

Ond mae hefyd angen garddwyr i hau'r had a thrin y tir. Nododd Gwynn mai gwaith cyntaf y garddwyr oedd pregethu'r Efengyl, a chyhoeddi person a gwaith Iesu Grist. Er bod lle i Gristnogion ymwneud â gwleidyddiaeth, gwneud gwaith cymdeithasol a thrafod *apologetics*, prif faes y gweinidog yw gwneud disgyblion a phregethu'r Efengyl, sef rhannu'r newyddion da am Iesu Grist mewn byd llawn



newyddion drwg, a chynnig gobaith mewn anobaith. Yn ail, ei waith yw gofalu am y blodau yn eu hamrywiaeth – fydd dim angen llawer o driniaeth ar rai, efallai, ond bydd angen gofal mwy cyson a thyner ar rai eraill; bydd rhai yn tyfu’n wyllt ac angen eu tocio, tra bydd angen polyn pren ar eraill i’w cynnal.

Serch ymdrechion y garddwyr, fe’n hatgoffwyd na ddaw dim o’u gwaith heb fod Duw yn y canol: Duw sy’n rhoi’r tyfiant, fel y soniodd Dewi ynghynt. Fe’n hanogwyd i weddio’n bersonol ac yn y Cwrdd Gweddi dros y ddau, y bydd Duw yn eu galluogi i bregethu’r Efengyl gydag eneiniaid yr Ysbryd Glân, yn ôl y doniau a roddodd



iddynt, fel y gwelwn fwy o flodau newydd ac er mwyn ein prydferthwch ni fel y byddwn yn denu pobl Caerdydd atom.

Dilynwyd yr oedfa gan arlwy arbennig (fel arfer) a chyfle i gymysgu a sgwrsio gyda hen ffrindiau.



Roedd y prynhawn yn gyfle i nodi daioni Duw tuag atom fel Eglwys, yn darparu dau gweinidog ifanc newydd inni, ac i’n hatgoffa ni, yn arddwyr ac yn flodau fel ei gilydd, o’n hangen i bwysu ar yr Un sy’n rhoi’r tyfiant.

Diolch i Luned Gwawr
am y lluniau!

Ar y silff?

Arfon Jones

Tybed faint o lyfrau sydd gennych chi areich silffoedd gatre? Os ydych chi fel fi (ac yn ei chael yn anodd i daflu unrhyw beth) byddwch chi'n ateb, 'Cannoedd!' Ond tybed faint o'r llyfrau yna rydych chi wedi eu darllen? Dw i'n cyfadde y byddai'n rhaid i mi ateb 'Lleiafrif'.

Roedd gosod y Beibl cyfan ar Wefan www.beibl.net ar Fawrth 1^{af} eleni yn drobwynt mawr i mi. Ar ôl bod wrthi am flynyddoedd yn cydlynu'r Gweithgor Efengylaidd (a oedd yn awgrymu newidiadau i'r Beibl Cymraeg Newydd), ac wedyn yn gweithio ar beibl.net, roedd pawb yn gofyn i mi, 'Beth wyt ti'n mynd i'w wneud hefo dy amser rŵan?'

Flwyddyn yn ôl roedd **gig** (Gobaith i Gymru) yn wynebu argyfwng ariannol, ac roedd peryg y byddai'n rhaid i ni ddod â'r elusen i ben. Dw i'n cofio awgrymu i'r Pwyllgor Gwaith mai dyna, efallai, oedd i fod, ac y dylwn i edrych i gyfeiriad arall ar ôl gorffen y cyfieithiad.

Gallai fod mai bwriad Duw oedd mai peth dros dros oedd yr elusen i fod – am dymor yn unig, i gyflawni tasg arbennig. Ond penderfynodd y Pwyllgor anfon allan apêl ariannol. Roedd yr ymateb gan unigolion ac eglwysi yn galonogol dros ben, ac o ganlyniad llwyddwyd i gwblhau'r cyfieithiad a'i osod ar y We.

Ers hynny daeth yn amlwg i ni mai dim ond rhan gyntaf y gwaith oedd darparu'r cyfieithiad. Credwn fod Duw wedi dangos yn glir fod **llawer mwy o waith i'w wneud**, a'i fod yn ein galw i symud ymlaen at y cam nesaf. Dim ond hanner y dasg oedd darparu'r cyfieithiad ei hun. Roedd fel cyhoeddi llyfr sy'n cael ei brynu gan bobl a'i osod ar eu silffoedd. Y cwestiwn mawr ydi faint o ddarllen fydd arno? Felly'r cam nesaf fydd mynd ati i annog pobl ifanc i ddarllen y Gair a'u helpu i'w ddeall. Ein brwiad yw ceisio cynhyrchu amrywiaeth eang o adnoddau hygyrch sy'n canolbwyntio ar:

1. Annog pobl ifanc i ddarllen y Beibl,

a thrwy hynny ddarganfod her a galwad Duw. Ein hiraeth dwfn yw gweld cenhedlaeth newydd yn troi at Iesu a phrofi cariad Duw yn chwyldroi eu bywydau.

2. Helpu pobl ifanc i ddeall y Beibl.

Ein gobaith yw darparu adnoddau cyfoes a fydd yn ennyn eu diddordeb, yn cyfathrebu â nhw, ac yn eu helpu i brofi'r wefr o glywed Duw yn siarad â nhw trwy ei Air.

Mae yna wahaniaeth sylfaenol rhwng yr holl lyfrau ar fy silffoedd sydd eto heb eu darllen a'r gyfrol yma rydyn ni'n ei hystyried yn Air Duw – neges Duw ei hun i ni. Pan fydd cyfrolau newydd yn cael eu cyhoeddi gan amrywiol weisg, clywn yn aml y geiriau '*a must read*'. Bwriad **gig** yw dweud rhywbeth tebyg wrth bobl ifanc. Ond nid cael lluo o bobl ifanc i ddweud eu bod wedi darllen Gair Duw yw ein nod, ond yn hytrach gweld lluo o bobl ifanc yn tystio fod ei ddarllen wedi chwyldroi eu bywydau ... ac yn parhau i wneud hynny.



Cinio Ymddeol

Ar 23 Mehefin, cawsom gyfle fel eglwys i 'ddathlu' ymddeoliad Gwynn o'i waith fel gweinidog Eglwys Efengylaidd Caerdydd. Hynny yw, cawsom gyfle i edrych yn ôl a diolch i Dduw am ein bendithio trwyddo, ac i fynegi ein diolch a'n cariad at Gwynn – heb anghofio Lis – am eu gweinidogaeth ffyddlon yn ein plith dros flynyddoedd maith.

Cawsom gyfle i fwyta a chymdeithasu gyda'n gilydd, a mwynhau cwmni rhai cyn-aelodau a oedd wedi dod i ymuno â ni. Yna rhannodd Wyn James a Gwydion Lewis rai argraffiadau sy'n cael eu crynhoi isod:

Cysonder yw un o'r geiriau cyntaf sy'n dod i feddwl Wyn wrth feddwl am Gwynn. Yn gyntaf, cysonder o ran ei fywyd beunyddiol. Cofiai Wyn fod ei ystafell yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth bob amser fel pin mewn papur a phopeth yn ei le – a'r un lle, bob tro, gan gynnwys ei esgidiau!

Wedyn, soniodd am ei gysonder yn ei ymrwymiad wrth y Gymraeg a Chymru: ei fod wedi derbyn galwad atom ni yng Nghaerdydd – achos digon gwan a newydd

ar y pryd – o eglwys Saesneg sefydlog ac adnabyddus, ac wedi aros gyda ni am ryw ddeng mlynedd ar hugain, er y byddai, o ran ei ddoniau a'i amlygrwydd fel pregethwr ac arweinydd eglwysig, wedi gallu mynd i fod yn weinidog mewn eglwysi Saesneg mawr a llewyrchus ym Mhrydain neu dramor.

Yn olaf, nododd Wyn gysonder Gwynn yn ei bregethu – ei fod yn gallu dweud, fel yr apostol Paul wrth y Corinthiaid: 'Canys ni ferna i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio' (1 Corinthiaid 2:2). Bu pwyslais cyson Gwynn ar graidd yr Efengyl, gan ein hannog fel cynulleidfa i edrych bob amser 'ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni' (Hebreaid 12:2). Yn y dyddiau hyn o drai ac o ddryswch ar Gristnogaeth yng Nghymru, mae eistedd dan weinidogaeth gyson o'r fath wedi bod yn fraith fawr.

Tynnodd Gwydion ein sylw at Gwynn y mathemategydd â meddwl academiaidd craff, a'r rhedwr pellter-hir, (neu'r 'dyn sy'n rhedeg yn araf', fel y byddai Gwydion – yn blentyn – yn

Gwynn*

cyfeirio ato). Rydym fel eglwys wedi elwa o'r doniau yma – yr esboniadau clir o rannau dyrys o'r ysgrythur, a'r dyfalbarhad yn y gwaith yn ein plith. Cyfeiriodd at weledigaeth eangfrydig Gwynn, a oedd i'w gweld, er enghraifft, yn y ffordd esmwyth y paratôdd at ei ymddeoliad a phasio'r baton ymlaen i ddau ifanc. Rhannodd Gwydion ei bod wedi bod yn fraint clywed gweddïau Gwynn dros yr aelodau, a bod yn ymwybodol o'i gariad tuag atom i gyd.

Diolchodd Gwydion hefyd i Lis am y ffordd mae hi wedi ei thaflu ei hun i mewn i bob agwedd o weinidogaeth yr eglwys, ac fe'n hatgoffodd o'r ffordd y mae Lis yn sylwi ar anghenion aelodau, ac yn llwyddo i'n caru a bod yn ofalus ohonom bob un.

Roedd cyfle i'r plant hefyd ddangos eu gwerthfawrogiad o 'Wncwl Gwynn' – ond bydd rhaid i chi fynd i YouTube i weld hynny (chwiliwch am Diolch Wncwl Gwynn)!

*Gydag ymddiheuriadau i Gwynn na thrafodwyd yr erthygl hon ym mhwyllgor Cwmpawd yn ôl ein harfer, gan y byddai wedi gwahardd ei chynnwys yn y cylchgrawn! – *Gol*.

Dros yr Haf gweddïwch dros:

Eisteddfod Sir Ddinbych

(2 - 10 Awst), a'r cenhadu a fydd yn digwydd ar y Maes ac ym mhabell y Gorlan.

Gwersylloedd Mudiad Efengylaidd Cymru ym Mhentrenant a Bryn-y-groes (10 - 17 Awst). Bydd nifer o'n haelodau yn arwain, yn 'swogio,' a Gruff a Daf yn wersyllwyr am y tro cyntaf.

Cynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru yn Aberystwyth (19 - 23 Awst). Bydd Mark Thomas yn ymgymryd â'r prif anerchiadau.


Ein heglwys ni

Cofiwch am ein cyfarfodydd yma bob Sul, ynghyd ag aelodau sy'n teithio ar wyliau ymhell ac yn agos, neu'n parhau yn y gwaith.

Cristnogion en

Lewis Powell

Noel Gibbard



Cyfeiriwyd at Lewis Powell yn gyffredinol fel 'Powell Caerdydd', mynegiant o'r ffaith fod pobl grefyddol Cymru yn gwybod yn iawn pwy oedd y person hwnnw. Roedd mor hysbys â 'Giggs Manchester United' yn ein dyddiau ni.

Ganed Lewis Powell ym Mrychgoed, sir Frycheiniog (Powys) ym 1788. Mae'n enghraifft dda o weinidog digoleg, ond er gwaethaf pob anfantais daeth yn amlwg ymhlith gweinidogion Annibynnol Cymru. Prin oedd yr addysg a gafodd. Yn ei ysgol gyntaf dysgodd y *Reading Made Easy* – nid 'easy' ond anodd i'r disgybl. Os oedd eisiau dŵr i'w yfed rhaid oedd gofyn yn Saesneg, 'Mistress, please to give me leave to have a drop of water.' Mewn ysgol arall y bu ynddi, o dan nawdd Eglwys Loegr, gweinyddwyd y 'Welsh Note'. Rhoddwyd darn bach o bren a'r llythrenau 'W' ac 'N' arno, i'r sawl oedd yn siarad Cymraeg, a'i gosbi. Arferai'r athro ddarllen o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*, ac annerch y plant â'r geiriau, 'My dearly beloved brethren.'

wog Caerdydd

Derbyniwyd Lewis Powell yn aelodyneglwsyrAnnibynnwyr ym Mrychgoed, a dechreuodd bregethu yno. Wrth ei dderbyn, rhoddodd y gweinidog Feibl iddo, a dweud, 'Derbyn y llyfr hwn.' Pregethai Lewis Powell yng nghartrefi'r ardal, fel oedd yr arfer y pryd hwnnw, a mynd ar daith bregethu gyda gweinidog profiadol, arfer gyffredin arall yn y dyddiau hynny. Bu'n ymarfer crefft gwehydd am gyfnod, ac yna gweithiodd fel crydd. Dyma'i brentisiaeth ar gyfer y weinidogaeth.

Dyfnhawyd ei brofiad ysbrydol gan ddiwygiad nerthol ym 1808. Yn ystod y cyffro, roedd gorfoleddu, canu a dawnio. Canwyd ambell emyn drosodd a throsodd, a defnyddid sawl tôn i'r un emyn. Dyma enghraifft o un o emynau poblogaidd y diwygiad:

Beth yw'r cynnwrf rhyfedd iawn

Sy'n y goedwig?

A yw'r arfaeth fawr ei ddawn

Ddim yn ddiddig?

Nis boddloni'r mohoni'n llawn

Nes cael gweled

Y rhai a brynwyd un prynhawen

O'u caethiwed.

Cafodd Lewis Powell alwad i Capel Isaac, sir Gaerfyrddin; symudodd i'r Mynydd-bach, Abertawe; yna gwahoddwyd ef i Gaerdydd ac ordeiniwyd ef ym 1827. Setlodd ef a'i wraig yn Union Street. Daeth i fugeilio cwmni bychan o gredinwyr a oedd yn cyfarfod yn y 'Coach House'. Bregus oedd yr adeilad, a'r glaw yn dod drwy'r to, ond yn ôl gwraig y gweinidog roedd fel Teml Solomon.

Nid oedd yn lle delfrydol, a phenderfynwyd cael capel i addoli. Os oedd pregethu ac ymweld yn bwysig i Lewis Powell, roedd casglu wrth ei fodd hefyd, a da hynny, oherwydd amcangyfrifwyd mai cost yr adeiladu fyddai £840 – swmenfawr yn y cyfnod hwnnw. Mynd ati i gasglu a wnaeth y gweinidog, a'i wraig hefyd. Mae sôn am y ddau yn mynd i Gaerfaddon ar ran Ebeneser, a dychwelyd yn fodlon iawn ar

y swm a gasglwyd. Yn y cyfnod o tua 1800 hyd tua 1830 roedd yn arferiad gan weinidogion Cymru fynd i Lundain i gasglu er mwyn dileu dyledion y capeli. Trefnodd Lewis Powell bregethu am gyfnod yng nghapel yr Annibynwyr yn y Borough, Llundain. Tra oedd yno bu'n cerdded y strydoedd a mynd o ddrws i ddrws i gasglu. Agorwyd capel Ebeneser ym 1828.

Ni chollodd Lewis Powell yr ysbryd diwygiadol tra oedd yng Nghaerdydd. Arferai

rhai gyfeirio ato fel y neidiwr, oherwydd ei ymateb emosiynol, fel yn nyddiau'r Brychgoed, i'r Efengyl. Pan ddaeth Cymanfa'r Annibynwyr i Gaerdydd, roedd yntau, fel sawl un arall, yn canmol a neidio. Roedd Lewis Powell yn bregethwr, bugail, casglwr, emynydd a bardd. Nodweddid ef ag ambell beth od. Er enghraifft, arferai gadw darnau o bapur o fewn ei het a dywediadau am synnwyr cyffredin arnynt. Bu cynnydd amlwg yn rhifyr aelodau yn ystod ei weinidogaeth o 1827 hyd 1851, pan ymddeolodd. Bu farw ym 1869.



*Adeilad Cyntaf Eglwys Ebeneser yn Paradise Place
(lluniau o www.ebeneser.org)*

Adolygiad


Emyr James

Diwinydda Ddoe a Heddiw
(Golygyddion: Iwan a Julie Rhys Jones)

Un o'r pethau rwyf wrth fy modd yn eu derbyn adeg y Nadolig yw 'selection box'. Mae'n cynnig amrywiaeth, yn eich cadw rhag diflasu, ac yn eich temtio i chwilio am ragor! Mewn un ystyr, mae'r gyfrol hon yn debyg i 'selection box'. Yn y rhagair, dywedir mai ei bwriad yw 'nodi cyfraniad Dr Eryl Davies i fywyd a gwaith Coleg Diwinyddol Efengylaidd Cymru'. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith fod y cyfranwyr i gyd naill ai yn ddarlithwyr a fu yn y coleg neu sy'n dal yno; ond pwysleisir nad cyfrol deyrnged yw hon, gan fod cyfraniad ynddi gan Dr Eryl ei hun!

Bwriad yr adolygiad hwn yw rhoi blas ar yr ysgrifau gwahanol, gan hyderu y bydd rhywbeth yma at ddant pawb!

'Y Beibl Cymraeg Newydd: Cyfraniad y Gweithgor Efengylaidd' – Iwan Rhys Jones
Wrth afael yn ein Beiblau, pa mor aml ydyn ni'n holi'r cwestiwn, 'Sut



daeth y cyfeithiad hwn i fod? Beth oedd y broses? Pa broblemau y bu raid eu hwynebu?' Yn yr erthygl hon, mae Iwan Rhys Jones yn rhoi brasolwg ar y ffordd annisgwyl y crëwyd fersiwn diwygiedig o'r Beibl Cymraeg Newydd, o fewn ugain mlynedd i'r cyfieithiad gwreiddiol. Wrtholrhain y ffordd yr aeth gweithgor o bobl efengylaidd ati i gyflwyno gwelliannau, mae hefyd yn cynnig esiamplau o'r ffordd y mae cyfieithiad yn medru cael dylanwad diwinyddol ac esboniadol. Yn ogystal â chynnig gwelliannau i adnodau hollbwysig

fel Rhufeiniaid 3:25, fe sicrhawyd mwy o gysondeb wrth gyfieithu. Dylem ddiolch am ddiwydrwydd y dynion hyn yn cynnig miloedd o awgrymiadau, gyda dros 70% wedi eu derbyn, gan sicrhau cyfeithiad mwy dibynadwy a dealladwy.

‘Geiriau, Gair a Gwerin: Athrawiaeth yr Ysgrythur yn Geiriadur Ysgrythurol Thomas Charles’ – Geraint Lloyd

Er bod yr erthygl hon yn rhoi manylion diddorol am fywyd Thomas Charles a’r ffordd yr aeth ati i lunio ei gampwaith o *Eiriadur*, prif fwriad Geraint Lloyd yw ymchwilio i ddysgeidiaeth Charles am athrawiaeth yr Ysgrythur. Er bod Thomas Charles yn gwbl uniongred wrth ddweud mai’r Beibl yw datguddiad Duw ohono’i hun trwy waith yr Ysbryd Glân yn arwain yr awduron, mae ei bwyslais ar ysbrydoliaeth yn troi’r gwaith hwnnw bron yn fecanyddol. O ganlyniad, mae’r syniad o bersonoliaethau’r awduron dynol yn cael ei golli i ryw raddau. Rhoddai bwyslais mawr ar ragoriaeth yr ieithoedd gwreiddiol dros unrhyw gyfieithiad ac ar osgoi defnyddio geiriau nad oeddynt yn rhai ysgrythurol wrth geisio cyfleu gwirioneddau’r Beibl. Amcan Thomas Charles yn y *Geiriadur*, fel yn ei holl weithgarwch, oedd dod

â phobl yn ôl at air Duw o hyd ac o hyd.

‘Yr Annibynwyr Cymraeg a Chyffesion’ – Noel Gibbard

Mae erthygl Noel Gibbard yn rhoi trosolwg ddiddorol dros ben o berthynas yr Annibynwyr â Chyffesion yr Eglwys. Roedd pryder ganddynt y byddai rhoi gormod o awdurdod i’r Cyffesion yn eu gosod gyfochr â’r Beibl. Yn hytrach, roedden nhw’n dibynnu ar ffyrdd eraill o ddatgan eu credoau gan gynnwys cyfamodau eglwysig, cyfarfodydd ordeinio, catecismau, emynau, a hyd yn oed gweithredoedd cyfreithiol yr eglwysi! Roedd yr agwedd hon yn codi sawl problem amlwg. Drwy beidio â chael credo ffurfiol, a dibynnu ar ddatganiadau yn unig, roedd modd gwyrddroi yr hyn oedd yn cael ei ddysgu, gan agor y drws i ryddfrydiaeth. Hefyd fe arweiniodd at ddeuoliaeth ffals rhwng ffydd a chredo. Ond wrth gwrs mae gwrthrych eich ffydd wedi ei wreiddio yng nghynnwys eich cred.

‘Ai’r Un yn Hollol yw’r Hen, Hen Allu? Charles Finney ac Adfywiad 1858–60 yng Nghymru’ – Gwyn Davies

Dyma erthygl rwydd iawn ei darllen (sy’n fawr o syndod i

unrhyw un sy'n adnabod Gwyn Davies). Ynnddi mae'n trafod un o'r diwygiadau ysbrydol mwyaf yn hanes Cymru, sef Adfywiad 1858–60; gwaith oedd â dechreuadau Americanaidd ac â dylanwadau Americanaidd arno. Roedd dwy wedd i'r adfywiad hwn. Yn gyntaf cafwyd symudiad gweddi a ddechreuodd yn Efrog Newydd ac a ledodd i Gymru lle trefnwyd cyfarfodydd tebyg. Yr ail wedd, heb gysylltiad amlwg rhyngddi â'r 'adfywiad gweddi', oedd dychweliad y Cymro Humphrey Jones o America. Dechreuodd gynnal cyfarfodydd 'adfywiadol' yng Ngheredigion, lle ymunwyd ag ef yn fuan gan weinidog lleol, Dafydd Morgan. Roedd yr adfywiad hwn yn wahanol i rai'r gorffennol mewn sawl ffordd, ac roedd rhai syniadau arbennig y gellid eu holrhain i ddylanwad Charles Finney. Roedd Finney yn weinidog Americanaidd a ddysgai mai mater o ewyllys bersonol oedd pechod ac ufudd-dod – ewyllys y gellideipherswadiodrwybregethu. Yr hyn a gyflawnodd marwolaeth Crist ar y groes oedd ein rhyddhau i allu penderfynu ufuddhau. Yn sgil hyn, gwelai adfywiad ysbrydol fel rhywbeth roedd modd ei drefnu gan ddefnyddio dulliau penodol er mwyn ennill ymateb. Cododd cymysgwch mawr ynghylch

pethau fel y gwahaniaeth rhwng cael eich ail-eni yn ysbrydol ac ymateb yn gyhoeddus mewn cyfarfod, a rhwng adfywiad crefyddol a gweithgarwch efengylu – cymysgwch a fyddai'n peri trafferthion i eglwysi Cymru am flynyddoedd. Mae rhybudd clir yma i'n hoes ni.

'Cynhadledd Gweinidogion Efengylaidd Cymru 1955–2008' – Eryl Davies

Yn briodol iawn, Eryl Davies ei hun sy'n cael y gair olaf. Yn ei erthygl deimladwy a thwym-galon, mae'n cyflawni camp fawr, sef crynhoi dros 50 mlynedd o hanes Cynhadledd Gweinidogion Efengylaidd Cymru. Llwydda i wneud hyn mewn modd cryno, clir a chyffrous. Wrth ddarllen am ddechreuadau'r gynhadledd, a'r ffordd y daeth gweinidogion o bob enwad at ei gilydd i gael cymdeithas, hyfryd yw clywed am yr undod oedd yn bodoli. Er bod anghytuno a thensiynau dros rai athrawiaethau, roedd cariad yn dal i gael ei fynegi. Trist yw darllen am y rhaniadau a fu dros y blynyddoedd, a'r ffaith ein bod yn dal i weld effeithiau hynny hyd heddiw. Gadewch i ni ddysgu o wersi'r gorffennol.

Felly dyna ni'n 'selection box'. Gobeithio bod eich genau yn glafoerio! Nawr cymerwch eich dewis!

Dewch i Drafod!

Catrin Fflur James


Mae criw o ferched (o bob oed!) wedi bod yn cwrdd unwaith y mis ers dros flwyddyn bellach, i drafod llyfrau Cristnogol gyda'n gilydd. Rydym yn cwrdd yng nghartrefi'n gilydd, gan drafod y penodau rydym wedi eu darllen a'r themâu sy'n codi ynddynt.

Y llyfr cyntaf a ddewison ni oedd *Don't Waste Your Life* gan John Piper. Fel mae'r teitl yn ei

awgrymu, her y llyfr hwnnw yw inni beidio â gwastraffu ein bywydau. Diffiniad Piper o fywyd wedi ei wastraffu yw hyn:


The wasted life is the life without a passion for the supremacy of God in all things for the joy of all peoples.

Mae sylweddoli hyn yn ein helpu i werthfawrogi beth yw bywyd cyflawn.



God created [us] to live with a single, all-embracing, all-transforming passion – namely, a passion to glorify God by enjoying and displaying his supreme excellence in all the spheres of life.

Cafon ni amser bendithiol iawn wrth ddarllen, trafod, ac ystyried pam y dylen ni glodfori Duw yn ein bywydau, a sut mae hynny'n edrych o ddydd i ddydd. Roedd y llyfr yn help i ni ddeall geiriau



Paul, ‘canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw’, a’r sialens mae hyn yn ei rhoi i ni fel Cristnogion. Roedd yn heriol iawn ar adegau, gan ein cymell i ail-ystyried elfennau o’n bywydau ac i wir edrych ar beth yw canolbwynt ein bywyd ni.

Yr ail lyfr (a’r un rydym yn ei drafod ar hyn o bryd), yw *The Good God* gan Michael Reeves. Mor belled, rydym wedi darllen y cyflwyniad a’r bennod gyntaf. Testun y llyfr yw athrawiaeth y Drindod. Ynddo ceir esboniad clir o natur y Drindod,

pwysigrwydd y Drindod, a’n perthynas ni â’r Drindod. Eto, mae’n lyfr sy’n peri i ni feddwl ymhellach am Dduw, gan ein hannog i chwilio’n ddyfnach i’w gymeriad a’i gariad tuag atom. Y pwyslais hyd yma yw’r ffaith ei bod yn hanfodol i ni werthfawrogi’r gwirionedd fod Duw yn Drindod, oherwydd felly y mae Duw yn ei hanfod!

Mae rhai yn gweld y pwnc hwn yn un trwm, sych a chymhleth, ond mae gallu Mike Reeves i ysgrifennu mewn ffordd ffres a difyr yn ein galluogi i werthfawrogi mor gyffrous a gogoneddus yw’r athrawiaeth yma mewn gwirionedd. Mae wedi gwneud i mi ddyheu am ddeall mwy am y berthynas berffaith a chariadus sy’n cysylltu tri pherson y Duwdod, a phrofi mwy o’r cariad sydd wedi gorlifo i’r greadigaeth ac i bobl Dduw.

Rydym ni’n dal megis dechrau ar y gyfrol yma, felly beth am ymuno â ni yn ein cyfarfod nesaf? Dewch i gael gair ag Amanda neu Catrin os am fwy o wybodaeth.

Newyddion

Mae wedi bod yn gyfnod prysur ym mywyd yr eglwys, a rhoddwyd sylw i nifer o ddigwyddiadau mawr yn ein hanes eisoes yn y rhifyn hwn. Ond mae yna ddau achlysur pwysig arall i'w nodi.

Bedydd Bedwyr

Diolchwn i Dduw am gael gweld un arall o blant yr eglwys yn cael ei fedyddio. Cawsom noson braf iawn yng Nghapel Minster yng nghwmni teulu'r eglwys, a ffrindiau a theulu Bedwyr Lewis, i'w weld yn tystio'n gyhoeddus i'w ffydd. Dymunwn fendith helaeth Duw arno wrth iddo symud i'r Bala i fyw. Byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr. Mae nifer o rieni wedi sylwi eisoes eu bod nhw'n gweld tipyn mwy ar eu plant ar ddiwedd oedfa ers i Bedwyr fod yn America ar wyliau!

Comisiynu Gwydion a Catrin

Y Sul wedi ordeinio Trystan ac Emyr, neilltiwyd y cwrdd bore yn wasanaeth i gomisiynu Gwydion a Catrin Lewis at y gwaith maent ar fin ymgymryd ag ef, sef rhedeg Canolfan Bryn-

y-Groes o fis Medi ymlaen. Rhannodd y ddau sut y cawsant eu harwain i'r pwynt yma, gan nodi rhai o'u gobeithion wrth ddechrau ar y gwaith. Yna fe bregethodd Gwynn o Numeri 6:24–6. A dyma'r mwyaf gallwn ddymuno i'r ddau ohonynt wrth iddynt symud yn raddol i'r Bala dros gyfnod yr Haf: i'r Arglwydd eu bendithio a'u cadw, i lewyrchu ei wyneb arnynt, a bod yn drugarog wrthynt, i edrych arnynt a rhoi iddynt heddwch. Cofiwn eiriau Lis hefyd: 'dyw'r Bala *ddim* yn bell!!'

Swyddi Newydd

Cofiwn am sawl un arall o'n plith sydd wedi dechrau, neu ar fin dechrau, swyddi newydd: Katherine Hallam, Catrin Fflur a Rhodri Jones. Llongyfarchiadau i chi, a phob hwyl yn setlo i mewn. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Wyn James ar gael ei benodi'n Athro'n ddiweddar yn Adran Gymraeg y Brifysgol.

Gwefan

Ewch i www.cwmpawd.org i weld ein wefan ar ei newydd wedd!

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

(Tymor yr ysgol)

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm (yn Ysgol Glantaf)

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm

Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mercher | 10.00am

Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am

Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Gorffennaf</i>	<i>21</i>	<i>Trystan Hallam</i>
	<i>28</i>	<i>Emyr James</i>
<i>Awst</i>	<i>4</i>	<i>Gwynn Williams / Trystan Hallam</i>
	<i>11</i>	<i>David James Morse</i>
	<i>18</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>25</i>	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Medi</i>	<i>1</i>	<i>Trystan Hallam / Emyr James</i>
	<i>8</i>	<i>Emyr James / Trystan Hallam</i>
	<i>15</i>	<i>Trystan Hallam</i>
	<i>22</i>	<i>Emyr James</i>
	<i>29</i>	<i>Trystan Hallam / Emyr James</i>
<i>Hydref</i>	<i>6</i>	<i>Emyr James</i>

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd
www.cwmpawd.org